

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, ac eraill o'r Ofalaeth a fu am amryw gyfnodau yn yr ysbyty dros y misoedd diwethaf – rhai ohonynt wedi derbyn llawdriniaeth, eraill wedi bod neu yn derbyn triniaeth tymor hir. Parhawn i weddio drostynt gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu gwarchod ac yn eu cynnal yn eu hangen.
- Yn yr un modd, cofiwn hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eilir Davies (Saron) a Charlene ar eu priodas ddydd Sadwrn diwethaf.

I ddo

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – “Taflu'r garreg gyntaf” gyda Joey G. Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 10fed am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed i ddathlu'r atgyfodiad. Mae croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Effesiaid 1: 15-23 (BCND tud. 211 / BCN: tud.193)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Mawrth 2014

Darlleniad y Dydd

Job 39:26-30

(BCND tud.487 / BCN: tud.445)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Diolchwn i Dduw am y rhai a roddodd i Gymru dros y canrifoedd: Dewi, Beuno a'r seintiau cynnar, a'r emynwyr a gawsom fel cenedl – yn wŷr a gwragedd. Mawr yw ein braint.

Yn y darlleniad heddiw y mae'r Gair yn disgrifio bywyd yr hebog. Roeddem yn canu emyn nos Sul diwethaf am y “Ffordd na chenfydd llygad barcut, er ei bod fel hanner dydd” (Ann Griffiths). Ynghynt yn llyfr Job mae'r dyfyniad yma: “Y mae llwybr na wŷr yr hebog amdano, ac nas gwelwyd gan lygad barcut.” (Job 28: 7) Mae gan yr hebog a'r barcut lygaid clir. Fel sy'n addas i adar ysglyfaethus, maent yn gallu gweld llygoden fechan ar lawr o uchder mawr. Ond ergyd yr emyn a'r adnod ydi bod ffordd Duw yn guddiedig hyd yn oed i'r mwyaf craff ac er ei bod yn amlwg. Mae ffyrdd yn diflannu yn y tywyllwch ond nid yw'n hawdd gweld hon er ei bod yn ganol dydd!

Mae ffyrdd Duw yn ddirgel ond eto'n amlwg! Yn y Beibl mae llawer o sôn am ddarganfod Duw, am ddo i adnabod Duw, neu, a'i roi mewn ffordd arall, am gael gweld Duw. ‘Gweld’ neu ‘adnabod’ neu ‘ganfod’ Duw a Iesu ydi'r bywyd tragwyddol. (Ioan 17:3) Dyma ydi'r “ffordd” sydd yn yr emyn a'r salm (Salm 139:24). Ond pam ei bod mor guddiedig?

Mae'r ateb i'r cwestiwn yna yn y Beibl hefyd. Mae a wnelo fo â'n natur ni. Yr ydym yn ddall yn ysbrydol oherwydd ein natur. Mae pechod wedi ein dallu ni i'r graddau nad ydym yn gweld er ein bod yn edrych. Ond y mae Duw, o'i fawr drugaredd, wedi addo rhoi natur newydd i'r rhai sy'n troi ato. Natur newydd ydi hon sy'n “cwbl groes” i'r natur sydd gennym o'n geni. Natur sy'n deillio o'r Ysbryd Glân ydi'r un newydd. Yr Ysbryd sy'n bywhau ac yn goleuo'n llygaid. Wrth i Ysbryd Duw weithio ynom, mae fel niwl yn codi ac fe ddaw y Ffordd yn amlwg i ni fel petai'n ganol dydd! Mae fel eli sy'n cael ei roi ar lygaid y dall (Ioan 9: 11) a byddwn fel Bartimeus yn cael gweld!

Yr hyn a welwn dan ddylanwad yr Ysbryd Glân ydi Iesu'n marw trosom ac yn cael ei gyfodi i'n dwyn at Dduw. Iesu ydi'r Ffordd. Mae mor amlwg, eto mor guddiedig.

“Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol, ffordd i godi'r meirw'n fyw ...

... Ffordd i ennill ei thrafaelwyr, ffordd yn Briod, ffordd yn Ben

Ffordd gysegrwyd, af ar hyd-ddi i orffwys ynddi draw i'r llen.” (CFF 724)

Derbyn y natur newydd a'r golwg newydd a wnawn – rhodd Duw ydyw.

Gofynnwn yn daer amdani ac addolwn yr Un sydd yn Ffordd, yn Wirionedd ac yn Fywyd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres ar y Salmau.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant yn Llansannan** am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant yn Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sadwrn • **Cyrraedd Cenhedlaeth Goll** – Cynhadledd undydd o 9.45-4.15 yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar gyfer pawb sy'n ymwneud neu sydd â diddordeb mewn gwaith ieuencid, gwaith plant, ysgol a chyrraedd teuluoedd. Prif Siaradwr: Mark Griffiths (awdur 'One Generation from Extinction').
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y **Parch. Meirion Morris** yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanfair am 10.00 (croeso i'r dynion hefyd!) a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Bydd Cinio Jangl am 12.00.
Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn y Ffestri am 7.30.
- Gwener Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.00. Yn dilyn y swper, ceir sgwrs gan Rhiannon Parri. Enwau ac addewidion bwyd i Trebor Roberts HEDDIW, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys yn dilyn yr oedfa.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Saron hefyd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Groes am 2.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 dan arweiniad y Parch. Tom Williams. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 2.00, a bydd Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 10.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.